

Cymunedau Creadigol AHRC

Ymarferydd Arloesi Cymunedol Peilot

Papur Polisi

Gogledd Iwerddon

Iechyd a

Lles

Hydref 2024



Comisiynwyd gan:



Cyd-destun Polisi

Mae argyfwng iechyd cyhoeddus yn datblygu yng Ngogledd Iwerddon oherwydd y cynnydd yn y niferoedd sy'n defnyddio sylweddau ac mae'r bylchau mewn polisiâu oherwydd cyfnod o lywodraeth ohiriedig ar ôl Brexit wedi gwaethygu'r sefyllfa.

Mae cyd-destun hanesyddol y Gwrthdaro a'r trallod economaidd cysylltiedig yn ffactorau risg allweddol, gan gofio mai'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Ngogledd Iwerddon sydd â'r [cyfraddau uchaf o farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau a chamddefnyddio cyffuriau](#) dros y 5 mlynedd diwethaf.

Mae nifer yr achosion o ddefnyddio sylweddau, hunanladdiadau ac anhwylderau iechyd meddwl yn uwch mewn [ardaloedd economaidd ddifreintiedig neu mewn mannau lle mae ardaloedd preswyl y cenedlaetholwyr gwahanedig a'r unoliaethwyr yn cyfarfod](#) sef yr ardaloedd a welodd yr effaith fwyaf yn ystod y Gwrthdaro. Mae'r [gyfradd hunanladdiadau yn yr ardaloedd hyn](#) dros dair gwaith yn uwch nag yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mae tua [28.5% o boblogaeth Gogledd Iwerddon](#) yn cael profiad o broblemau iechyd meddwl, gyda'r rhan fwyaf yn gysylltiedig â thrais hanesyddol.

Er eu bod yn seiliedig ar dystiolaeth, yn aml iawn mae ymyriadau traddodiadol ar gyfer trawma a defnyddio sylweddau yn cael eu gyrru o'r brig i lawr, gan ddibynnu ar dystiolaeth sydd ddim yn [briodol](#) o bosibl yn ddiwylliannol nac yn gyd-destunol. Gall hyn arwain at anawsterau o ran pa mor '[addas](#)' yw'r ymyriadau. Mae'r cyd-destun hanesyddol unigryw yng Ngogledd Iwerddon yn gofyn am ddull gwahanol sy'n integreiddio profiad bywyd y cymunedau sy'n wynebu'r effaith fwyaf â ffynonellau tystiolaeth traddodiadol, er mwyn creu atebion mwy effeithiol.

Argymhellion

Sicrhau bod y celfyddydau a diwylliant yn rhan greiddiol o strategaeth iechyd Gogledd Iwerddon yn y dyfodol

Mae angen i'r celfyddydau a diwylliant fod wrth galon unrhyw strategaeth yn y dyfodol i wella canlyniadau iechyd a chymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r celfyddydau a diwylliant yn chwarae rhan bwysig mewn atebion sy'n 'seiliedig ar leoedd' ar gyfer materion iechyd cymhleth a pharhaus, gan rymuso cymunedau i fynd i'r afael â'r materion hyn o'r tu mewn a chreu dulliau ar lawr gwlad sy'n seiliedig ar gryfderau ac yn torri cylchoedd traddodiadol trosglwyddo rhwng cenedlaethau.

Os am atal, rhaid cael mecanweithiau gwahanol. Mecanweithiau sy'n adlewyrchu'n well bwysigrwydd y celfyddydau a diwylliant ar gyfer iechyd a lles. Mecanweithiau sydd hefyd yn cydnabod yr effaith bosibl y gallai ymyriadau celfyddydol sy'n seiliedig ar dystiolaeth eu cael yn y cymunedau sy'n wynebu effaith fwyaf y galw cynyddol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Y gwariant presennol yng Ngogledd Iwerddon yn 2023/2024 ar gyllid ar gyfer y Celfyddydau (y pen o'r boblogaeth) oedd [£5.07, o'i gymharu â £10.51 yng Nghymru a £21.58 yng Ngweriniaeth Iwerddon](#). Tanlinellir hyn gan y toriadau mewn cyllid i Gyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon, mewn termau real, sef tua [30% dros y](#)

[degawd diwethaf](#) a'r rhybudd y bydd hyn yn cyfyngu ar fynediad rhai grwpiau at y celfyddydau, gan gynnwys y rhai mewn ardaloedd difreintiedig.

Mae angen gweithredu ar lefel llywodraeth ddatganoledig i fynd ati'n weithredol i ymgorffori dulliau celfyddydol a diwylliannol, o fewn y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, i feithrin grym a gallu mewn cymunedau sydd ag angen dybryd..

Ymgorffori gwybodaeth a phrofiad y gymuned wrth lunio polisiau

Mae gwybodaeth a phrofiad y gymuned yn hollbwysig wrth fynd i'r afael â heriau parhaus a chymhleth sy'n seiliedig ar leoedd yng Ngogledd Iwerddon. Rhaid i ddulliau sy'n seiliedig ar y celfyddydau gael eu hintegreiddio mewn gwaith cynllunio polisiau a'u hategu gan dystiolaeth sy'n deillio o brofiad go iawn pobl o fyw mewn lleoliad penodol.

Yn aml, dim ond gyda gwleidyddion ac academyddion y gwneir gwaith ymgynghori ar bolisiau. Mae'r dulliau presennol o gynnwys cymunedau lleol yn y gwaith o ddatblygu polisi neu ymgynghori ynghylch polisi yng Ngogledd Iwerddon yn gyfyngedig o ran cyrhaeddiad ac yn aml yn cael eu llesteirio gan y dulliau anhygyrch a ddefnyddir i gasglu'r wybodaeth hon.

Mae angen i'n llywodraeth ddatganoledig

dreialu dulliau newydd sy'n caniatáu i gymunedau fynegi eu profiad a'u gwybodaeth uniongyrchol yn gliriach ar lefel leol a datganoledig er mwyn gallu gwneud penderfyniadau strategol yn well. Dylai hyn gynnwys darparu adnoddau digonol i gymunedau allu cymryd rhan yn y broses o gyd-greu polisiau datganoli.

Er mwyn i hyn ddwyn ffrwyth, mae angen sicrhau newid diwylliannol mewn sefydliadau lleol a datganoledig. Rhaid rhoi'r gorau i edrych ar gymunedau dosbarth gweithiol fel problemau i'w datrys ac fel asedau i'w harneisio. Mae angen cyplysu hyn hefyd â symud ymlaen o ymgynghori â'r gymuned i gyd-greu â'r gymuned mewn prosesau syniadaeth polisiau datganoledig.

Tystiolaeth gyfiawn i lywio'r broses o wneud penderfyniadau

Mae angen uwchsgilio a meithrin gallu i sicrhau bod gwybodaeth a phrofiad y gymuned yn cael eu pwysu a mesur yn briodol fel dystiolaeth mewn penderfyniadau polisi datganoledig. Ar hyn o bryd, yr arfer wrth lunio polisiau yw myfyrio ar dystiolaeth sydd mewn papurau ymchwil ac ystadegau, a allai fod yn berthnasol yn lleol ac yn gyfredol – neu beidio – er mwyn llunio ymatebion hyblyg i heriau iechyd parhaus. Drwy integreiddio a phwysu a mesur dystiolaeth gymunedol a phrofiad bywyd yn gyfartal yn y broses hon, byddai corff mwy cyfiawn o dystiolaeth ar gael i helpu i lunio polisiau'n fwy effeithiol.

Er mwyn i hyn ddigwydd, mae angen hyfforddiant newydd arnom i wella sgiliau

academyddion sy'n cynnal ymchwil mewn cymunedau. Mae angen i gynghorwyr gwleidyddol yng Ngogledd Iwerddon a'r DU gydnabod pwysigrwydd, cywirdeb ac ansawdd dystiolaeth ar lefel cymuned wrth lunio polisiau datganoledig. Gall prifysgolion chwarae rhan allweddol yn hyn, drwy bartneriaethau cymunedol-academaidd ymrwymedig sy'n cynhyrchu allbynnau a thystiolaeth o safon uchel – sy'n berthnasol i'r gymuned ac yn cael eu harwain gan y gymuned.

Cyd-greu ymatebion ar lefel gymunedol

Mae diwylliant yn dangos pwysigrwydd ymateb ar lefel gymunedol i heriau a chyfleoedd cymunedol cymhleth a rhyngberthynol. Yn aml, mae ymyriadau sy'n ymwneud â defnyddio sylweddau a thrawma sy'n pontio'r cenedlaethau yn ymatebion therapiwtig sy'n targedu unigolion yn unig. Mae angen rhaglenni sy'n targedu newid ar lefel y gymuned ac sy'n sensitif i brofiadau gwahanol o un genhedlaeth i'r llall. Bydd hyn yn ein galluogi i symud y tu hwnt i ddarpariaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac sydd yn hytrach yn caniatáu i'r unigolyn fod yn fecanwaith ar gyfer newid yn ei gymuned.

Mae angen gweithredu gan academyddion a chyrrff cyllido, fel UKRI/AHRC/MRC sy'n gweithio ym maes ymchwil. Mae angen archwilio cyfleoedd i ehangu cyrhaeddiad ac effaith ymchwil y tu hwnt i gynulleidfaoedd traddodiadol a chynnwys cymunedau'n well ym mhob cam o'r broses ymchwil, nid dim ond yn y camau casglu a rhannu data.

Polisi datganoledig sylfaenol yn ei le

Y cymunedau eu hunain sy'n gwybod orau beth yw'r heriau mwyaf y maent yn eu hwynebu. Mae datganoli'n creu'r cyd-destun ar gyfer gwell dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar leoedd. I fanteisio i'r eithaf ar botensial llywodraeth ddatganoledig yng Ngogledd Iwerddon, mae angen i academyddion, asiantaethau cymunedol a llunwyr polisi gydweithio er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd 'lle' yn well wrth datblygu ymchwil, gweithredu a llunio polisi. Mae partneriaethau cydweithredol yn darparu tystiolaeth ac yn datblygu arbenigedd a chapasiti mewn cynlluniau sy'n seiliedig ar leoedd, ac maent yn gwella effaith a chyrhaeddiad canlyniadau.

Mae gweithio ar sail lleoedd yn esblygu, gydag arweinwyr yn y maes hwn yn dod i'r amlwg o ganlyniad i newidiadau mewn polisiâu sefydliadol sy'n ymwneud â chyfrifoldeb dinesig a chymdeithasol mewn sefydliadau trydedd lefel. Fodd bynnag, mae newid yn broses araf, a gall diffyg llwybrau dilyniant academiaidd sy'n gysylltiedig â gweithio gyda chymunedau amharu ar lwyddiant dulliau sy'n seiliedig ar leoedd. Mae partneriaethau cydweithredol traws-sector sy'n cael eu creu ar y cyd yn allweddol i sicrhau bod ansawdd y dystiolaeth o leoliadau cymunedol yn gallu helpu i lunio polisiâu datganoledig.

Mae angen strategaeth gydlynol a chydweithio rhwng sefydliadau academiaidd, cyrff cyllido a llunwyr polisiâu, ar lefelau rhanbarthol a

chenedlaethol, i gynghori, hyrwyddo ac arwain ymchwil sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd lle ym mhob maes o lunio polisiâu datganoledig. Mae angen newid diwylliannol mewn sefydliadau addysg uwch i wneud yn siŵr bod fframweithiau a strwythurau gyrfaedd academiaidd yn adlewyrchu'n well y cyfrifoldebau dinesig a chymdeithasol sy'n cyd-fynd â'i gilydd.

Gwneud yr hyn sy'n gweithio

Os yw ymyriadau sy'n seiliedig ar y celfyddydau i gael eu hystyried yn gyfartal â chynlluniau iechyd eraill, yna mae'n hanfodol bod mecanweithiau cyllido yn cydnabod hyn. Gan adeiladu ar lwyddiant y rhaglen Cymunedau Creadigol, mae angen mecanweithiau cyllido dilynol i gynyddu cyrhaeddiad ac effaith ar draws cymunedau yng Ngogledd Iwerddon. Byddai cyllid tymor hwy yn mynd i'r afael â'r angen ac yn bodloni'r awydd am ymyriadau celfyddydol sy'n mynd i'r afael â'r materion iechyd lleol cymhleth hyn sydd ddim yn unigryw i un gymuned.

Mae natur tymor byr y cyllid presennol ar draws sectorau yn ei gwneud yn anodd cyd-greu a chyflwyno cynlluniau llwyddiannus ar lawr gwlad y tu hwnt i gymunedau unigol, gan lesteirio gwaith rhaglenni effeithiol sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Mae angen i gyrff cyllido ym maes ymchwil a datblygu, diwylliant, y celfyddydau ac iechyd yn y DU weithredu i ddarparu mecanweithiau cyllido hyblyg, a fyddai'n golygu bod modd graddio ymyriadau effeithiol.

Cyd-destun Datganoledig

Mae defnyddio sylweddau yn argyfwng iechyd cyhoeddus sy'n rhoi pwysau ar wasanaethau iechyd a darpariaeth gofal. Gwaethygir yr angen yma yng Ngogledd Iwerddon gan waddol y Gwrthdaro ac mae'n ddifrifol iawn mewn ardaloedd difreintiedig. Er nad yw dulliau sy'n seiliedig ar y gymuned ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn newydd ym maes gofal iechyd, mae'r defnydd o'r celfyddydau a diwylliant yn y sgwrs hon yn fwy newydd. Gallai defnyddio'r celfyddydau i rymuso cymunedau i fynd i'r afael â heriau defnyddio sylweddau a thrawma sy'n pontio'r cenedlaethau mewn cymunedau, a hynny mewn ffordd ragweithiol sy'n seiliedig ar drawma, helpu i leihau'r galw ar wasanaethau.

Fodd bynnag, mae natur dameidiog y cyllid sy'n cael ei roi i'r celfyddydau yng Ngogledd Iwerddon yn ei gwneud yn anodd cyflawni a graddio rhaglenni arloesol, gydag effeithiau tymor hir yn cael eu llesteirio gan fodolau cyllido tymor byr. Mae angen cyllid hirdymor ac ymrwymedig gan y Llywodraeth, ACNI ac AHRC – drwy fecanwaith datganoledig – i dreialu, cyflymu'r broses raddio, a chynnal y gwaith o drosi ymyriadau cymunedol effeithiol sy'n seiliedig ar y celfyddydau yn y fan yma.

Mae'r [polisi](#) presennol yng Ngogledd Iwerddon yn darparu fframwaith ar gyfer ymatebion arloesol o'r fath i drawma sy'n pontio'r cenedlaethau a defnyddio sylweddau. O ystyried pa mor berthnasol yw'r heriau hyn mewn cymunedau ar draws Gogledd Iwerddon, mae'n debyg y byddai hyn yn cael cefnogaeth drawsbleidiol.

Gwybodaeth Bellach:

I gael rhagor o wybodaeth am Gymunedau Creadigol AHRC ewch I www.creativecommunities.uk

Cysylltwch â'r CIP:

Áine Brady, Prifysgol y Frenhines Belfast | aine.brady@qub.ac.uk

Ariennir Cymunedau Creadigol gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau yn y DU (Cytundeb Grant Rhif AH/X001555/1) ac fe'i cynhelir ym Mhrifysgol Northumbria, Newcastle.